**Eitem ar yr agenda: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**DYDDIAD** **20 MEHEFIN 2005**

**ADRODDIAD** **Y TRYSORYDD I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**PWNC** **CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2004/05 A FERSIWN DRAFFT Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2005/06**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Derbyn crynodeb o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05

1.2 Cymeradwyo Fersiwn Drafft y Cynllun Archwilio ar gyfer 2005/06

## 2. CYFLWYNIAD

2.1 Dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (roedd gofynion tebyg yn bodoli dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 cyn 1 Ebrill 2005), mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol".

2.2 Caiff y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei chyflawni ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n swyddogaeth werthuso annibynnol ar gyfer adolygu gweithgarwch yr Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth ar gyfer pob lefel reoli.

2.3 Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn nodi y dylid cyflwyno adroddiad dan nawdd ATAGC ar y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac adroddiad ar berfformiad o'i gymharu â'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

2.4 Y Prif Swyddog Tân a'r darparwyr archwilio mewnol sy'n gyfrifol am bennu cynnwys y cynllun archwilio. Dylid paratoi'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

2.5 Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilydd allanol yr Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd.

2.6 Gellir rhannu gwaith archwilio mewnol yn fras yn bedwar categori:

(a) **Archwiliadau Cysondeb,** sydd wedi'u bwriadu i sicrhau:

- Y caiff yr holl incwm sy'n ddyledus i ATAGC ei gasglu, ei dderbynebu, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi yn y modd cywir.

- Y caiff pob taliad ei awdurdodi yn y ffordd gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ATGC.
- Bod pob aelod o staff wedi'i benodi yn y modd priodol ac yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.
- Cael gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.
- Y caiff eiddo ac asedau eraill eu cofnodi a'u diogelu yn y modd cywir.

(b) Mae **Archwiliadau Systemau** wedi'u bwriadu i sicrhau bod pob system a gweithdrefn yn cynnwys trefniadau rheoli digonol er mwyn atal twyll neu anghysonderau eraill, e.e. dylai bod o leiaf dau o bobl yn ymwneud â phob gweithdrefn.

(c) **Archwiliad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.** Caiff hwn ei ddefnyddio i brofi hygrededd systemau cyfrifiadurol sydd ar waith a hefyd er mwyn cynorthwyo i ddod o hyd i dwyll ac anghysonderau drwy archwilio systemau cyfrifiadurol.

(ch)**Archwiliadau Contractau,** sy'n cynnwys gwerthuso darpar-gontractwyr o safbwynt eu sefyllfa ariannol, archwiliad o drefniadau rheoli sydd mewn grym er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau ac archwiliad o sampl o gontractau cyfredol a rhai a gyflawnwyd eisoes gan gynnwys dilysu cyfrifon terfynol.

2.7 Caiff adroddiad ei baratoi yn dilyn pob archwiliad mewnol a fydd yn:

- nodi pwrpas, cwmpas, canfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- gwneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd.
- cynnwys cynllun gweithredu i fonitro a chynorthwyo gweithredu'r argymhellion.
- ymorol am archwiliad dilynol o fewn amser rhesymol i adeg cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

## 3. ADOLYGIAD O WEITHGARWCH 2004/05

3.1 Yn ystod 2004/05 darparwyd 48 diwrnod archwilio yn hytrach na'r 45 niwrnod oedd yn y cynllun archwilio strategol. Cafodd dau adroddiad eu paratoi yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â :

- **Pencadlys Rhanbarth y Dwyrain a Gorsafoedd Rhan Amser** – gweithdrefnau prynu, incwm, stociau tanwydd a chofnodi manylion tanwydd, cofnodion cerbydau, rheolaeth ar dystysgrifau tân ac incwm, rhestrau eiddo ac arian mân ar gyfer y Pencadlysoedd Rhanbarthol a rhai gorsafoedd dethol.
- **System Gyflogau –** gwirio'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan y rheolwyr o ran pobl sy'n ymuno â'r rhestr gyflogau ac yn ei gadael, pob amrywiad cyflogau fel goramser, dyrchafiadau dros dro, tâl salwch, budd-daliadau mamolaeth ayb, efo'r bwriad o benderfynu a gwerthuso digonolrwydd y rheolaeth fewnol yn y meysydd hyn a nodi unrhyw wendidau a meysydd sydd â risg phosib o fewn y system.

3.2 Roedd y safbwyntiau archwilio a fynegwyd yn yr adroddiadau'n nodi bod safon gyffredinol y cofnodion ariannol a'r cofnodion eraill a archwiliwyd yn dda iawn, efo anghysondebau bach ar lefel y gorsafoedd rhan amser.

3.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr arolygon archwilio fe wnaed pedwar o argymhellion.

3.4 Cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu yn nodi'r ymateb cytunedig i argymhellion yr archwiliad efo fersiynau drafft yr adroddiadau, ac mae'r rhain wedi'u dychwelyd gan reolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd â manylion y camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau y caiff yr argymhellion eu gweithredu.

3.5 Mae'r crynodeb o'r gweithgarwch archwilio'n dangos sut y bwriedir dosrannu adnoddau archwilio o ran diwrnodiau gwaith dros adrannau a gwasanaethau, ac mae'n cymharu'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn ystod 2004/05 â'r cynllun.

## 4 BARN ARCHWILIO

4.1 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod 2004/05, barn yr Archwiliad Mewnol o'r dulliau gweithredu a bennwyd gan y rheolwyr er mwyn cael Rheolaeth Ariannol Fewnol yw eu bod yn dda iawn.

## 5 FERSIWN DRAFFT Y CYNLLUN ARCHWILIO AR GYFER 2005/06

5.1 Diben y cynllun archwilio blynyddol yw:

- penderfynu ar flaenoriaethau archwilio ar y cyd efo Rheolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub
- pennu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau archwilio angenrheidiol
- ffurfioli tasgau archwilio
- adolygu gwaith archwilio'r flwyddyn flaenorol.

5.2 Fel canllaw yn unig y mae'r cynllun archwilio wedi'i fwriadu. Gall newid mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau anrhagweladwy eraill arwain at wyro oddi wrth y cynllun. Cafodd y cynllun ar gyfer 2005/06 ei baratoi yn dilyn ymgynghori â Rheolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub.

5.3 Mae'r cynllun archwilio strategol, sy'n cynnwys dadansoddiad risg, wedi'i fwriadu i ymorol am bob agwedd ar weithgarwch ATAGC o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i weithredu ar argymhellion archwiliadau blaenorol.

## 6 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

Dyma grynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05:

| | Adran/Gwasanaeth | Dyddiau Bwriedig 2004/05 | Dyddiau Gwirioneddol 2004/05 |
|---|---|---|---|
| 1 | Ceisiadau penodol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub | 7 | 7 |
| 2 | Gwasanaeth Tân ac Achub – Cynllunio ac Adrodd | 5 | 7 |
| 3 | Archwiliadau Dilyniant | 2 | 2 |
| 4 | Tâl Diffoddwyr Tân Rhan Amser Ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam | 6 | 7 |
| 5 | Archebu ar-lein y Storfeydd | 3 | - |
| 6 | Gweithrediad Twyll Cenedlaethol | 2 | 4 |
| 7 | Systemau Cyflogau – diffoddwyr tân llawn amser | 20 | 21 |
| | CYFANSWM DYDDIAU | **45** | **48** |

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2005/06 fel a ganlyn:

| | Adran/Gwasanaeth | Dyddiau Bwriedig 2005/06 | Prif Feysydd i'w Cynnwys |
|---|---|---|---|
| 1 | Ceisiadau penodol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub | 2 | Fel bo angen |
| 2 | Gwasanaeth Tân ac Achub – Cynllunio ac Adrodd | 4 | Adroddiadau a chynlluniau blynyddol am weithgarwch archwilio. |
| 3 | Archwiliadau Dilyniant | 2 | Argymhellion archwilio blaenorol |
| 4 | Tâl Diffoddwyr Tân Rhan Amser - Ardaloedd Gorllewinol :- Ynys Môn, a Gwynedd | 10 | Adolygiadau o weithdrefnau yn cofnodi oriau a weithiwyd, presenoldeb, ffioedd dril ymarfer, hyfforddiant, cofnodion cerbydau a rhestrau eiddo, ac ati |
| 5 | Menter Twyll Cenedlaethol | 3 | |
| 6 | Rheoli Fflyd | 7 | Adolygu systemau a gweithdrefnau |
| 7 | Cynllun Lwfansau'r Aelodau | 4 | Adolygu lwfansau |
| 8 | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub | 15 | Incwm a Gwariant – adolygu gweithdrefnau a rheolaethau |
| 9 | Swm wrth gefn | 3 | |
| | CYFANSWM DYDDIAU | **50** | |